

Lee Waters AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1179  
Ein cyf/Our ref LW/11016/21

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

22 September 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 22 Gorffennaf yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, yn glŷn ag addasu'r dyluniad paent ar drenau ar Reilffordd Calon Cymru i fod yn debyg i lindys i ddenu twristiaid.

Mae cryn gost yn gysylltiedig â mentrau o'r fath o ran amser, pobl ac arian, ac mae'n bosibl y bydd angen tynnu trenau o'r gwasanaeth er mwyn gwneud y gwaith. Dylid nodi hefyd fod trenau yn aml yn cael eu defnyddio ar draws amrediad eang o lwybrau ar rwydwaith Trafnidiaeth Cymru, ac na ellir gwarantu y bydd y trenau sydd wedi cael eu paentio â'r dyluniad a awgrymir gan y ddeiseb bob amser ar yr un llwybr. Un enghraifft o hyn yw trê'n ac arno logo pen-blwydd Rheilffordd Calon Cymru sy'n treulio cryn dipyn o amser ar Reilffyrdd Cymoedd De Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn i Drafnidiaeth Cymru ystyried y cynnig hwn yn llawn, byddai angen darparu'r canlynol.

- Dealltwriaeth neu ymchwil gadarn yn seiliedig ar farn defnyddwyr sy'n profi bod y cyhoedd mewn gwirionedd o blaid Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi cymaint o amser, ymdrech ac arian.
- Dealltwriaeth neu ymchwil gadarn yn seiliedig ar farn defnyddwyr sy'n nodi'r cynnydd posibl mewn referniw gan gwsmeriaid y gellid ei gyflawni.
- Dadansoddiad o'r anfanteision i gwsmeriaid a allai godi o ganlyniad i dynnu trenau o'r llwybr hwn o'r gwasanaeth er mwyn cyflawni'r prosiect.
- Asesiad o sut y byddai gweithgaredd o'r fath yn ategu yn uniongyrchol nodau Trafnidiaeth Cymru o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Cynnig ynghylch sut y gellid hyrwyddo menter o'r fath i'r cyhoedd, pwy ddylai wneud hyn, beth fydd y gost o ran arian ac ymdrech a beth fydd y canlyniadau.
- Cynnig ynghylch sut y gellid ariannu'r prosiect hwn a chost oes y prosiect.
- Achos busnes i ddangos cost/manteision cyffredinol y prosiect newydd arfaethedig hwn.

Mae gan Drafnidiaeth Cymru contract sefydledig gyda chwmni o'r enw Global Ltd sy'n gwerthu lle hysbysebu yn ei gorsafoedd ac ar ei threnau. Global Ltd sy'n berchen ar yr hawliau i ddefnyddio holl du allan trenau ar gyfer lle hysbysebu masnachol. O ganlyniad, byddai angen hefyd ystyried yr amodau a'r esemptiadau sy'n gysylltiedig â'r contract hwn pe bai'r cynnig yn y ddeiseb yn cael ei weithredu.

Byddai hefyd angen penderfynu pa brosiectau Trafnidiaeth Cymru presennol y gallai fod angen eu gohirio neu eu hatal er mwyn darparu ar gyfer y prosiect newydd hwn – prosiect nad oes cynlluniau na chyllideb ar ei gyfer.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change